**Amlinelliad o newidiadau i'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer gofal plant wedi'i reoleiddio (SGC) a'r Atebion Holi ac Ateb yn dilyn y weminar 04/07/2023**

Mae'r testun mewn du yn cael ei gymryd yn uniongyrchol o'r ddogfen SGC wedi'i ddiweddaru a threfnu mewn themâu a gododd o'r drafodaeth. Mae testun glas yn wybodaeth ychwanegol a ddarperir i enghreifftio SGC mewn enghreifftiau ymarferol, neu mewn ymateb i ymholiadau pellach y mae Blynyddoedd Cynnar Cymru wedi'u gwneud i ofyn am eglurhad lle bo angen. Sicrhewch eich bod yn cyfeirio at SGC a'ch polisïau gwaith ar gyfer unrhyw benderfyniadau yn eich lleoliad. Mae ein timau rhanbarthol yn hapus i drafod enghreifftiau unigol yn seiliedig ar eich cyd-destun a gellir eu cyrraedd ar y ddolen ganlynol.

## Newidiadau Allweddol Cymorth Cyntaf (a gymerwyd gan SGC)

*Gan fod cryn dipyn o amser wedi'i roi i ymholiadau gan aelodau ar hyfforddiant a gofynion cymorth cyntaf, nod yr adran hon yw amlinellu rhai o'r newidiadau allweddol ac ymateb i gwestiynau rhai aelodau a godwyd yn ystod y drafodaeth.*

**Gofynion hyfforddi Cymorth Cyntaf Pediatrig (Safon 10: Gofal iechyd)** – rydym wedi cryfhau'r gofynion ar gyfer cymorth cyntaf mewn lleoliadau gofal plant cofrestredig, ac wedi darparu gwybodaeth gliriach am gynnwys y cwrs mewn atodiad. Bydd y gofynion o ran hyfforddiant cymorth cyntaf yn wahanol, yn dibynnu ar y gwasanaeth a ddarperir. Darperir cyfnod rhybudd o 18 mis tan ddiwedd Tachwedd 2024 er mwyn i ddarparwyr allu paratoi i fodloni'r gofynion newydd o ran cymwysterau.

**Safon 10: Gofal iechyd** (tud.31)

**10.18**

Bod gan unigolion sydd wedi'u hyfforddi mewn cymorth cyntaf gymhwyster **"addas"**. Rhaid i gynnwys cyrsiau Cymorth Cyntaf Pediatrig fod yn gyson â'r meini prawf a amlinellir yng nghanllawiau atodol y Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn Atodiad B ar Hyfforddiant Cymorth Cyntaf Pediatrig. Rhaid

cyflawni pob gofyniad newydd mewn perthynas â chymwysterau Cymorth Cyntaf Pediatrig erbyn **diwedd Tachwedd 2024.**

**Atebion Holi ac Ateb:**

*Cawsom amrywiaeth o gwestiynau am y gofynion ar gyfer cymorth cyntaf. Roedd y rhain yn cynnwys y costau, p'un a yw'r cymwysterau cymorth cyntaf pediatrig presennol yn dal i gwmpasu staff, pa ganran o staff sydd angen cymorth cyntaf pediatrig ac yn hanesyddol gorfod cymryd amser i ffwrdd i gwblhau'r prosesau ardystio sy'n ofynnol i gynnal gwasanaeth.*

**Mae'n ofynnol i'r holl staff gael o leiaf:**

- Cymorth Cyntaf Pediatrig Brys (6 awr o hyfforddiant wyneb yn wyneb).
- Mae'n ofynnol i bob person newydd ymgymryd â Chymorth Cyntaf Brys o fewn 3 mis o ddechrau gwaith.
- Rhaid i o leiaf un person sy'n gofalu am y plant gael Cymorth Cyntaf Pediatrig Llawn (12 awr) a'r gofyniad lleiaf ar gyfer GDLl yw 1:10 (cymhareb oedolyn hyfforddedig:plentyn).
- Mae staff sydd wedi'u hyfforddi'n briodol yn cael eu dosbarthu yn unol â chynllun y lleoliad.
- Mewn ymateb i'r cwrs Cymorth Cyntaf Pediatrig Llawn, mae Llywodraeth Cymru wedi egluro y gall y cwrs 12 awr fod yn rhannol ar-lein/o bell. Mae Atodiad B ond yn nodi bod angen i elfen Argyfwng 6 awr y cwrs fod wyneb yn wyneb, gellid cyflwyno'r elfen sy'n weddill o bell.
- Gwiriwch gyda'ch darparwr Cymorth Cyntaf fod eich tystysgrif bresennol yn bodloni'r safonau newydd.

**Atodiad B – Canllawiau Cymorth Cyntaf Atodol y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Hyfforddiant Cymorth Cyntaf Pediatrig** (tud.75)

**Dylai'r cwrs Cymorth Cyntaf Pediatrig llawn bara o leiaf 12 awr (heb gynnwys seibiannau)  Mae'n rhaid iddo gynnwys:**

- Gallu asesu argyfwng a blaenoriaethu’r camau i'w cymryd
- Helpu babi neu blentyn nad yw’n ymateb ond sy’n anadlu’n arferol
- Helpu babi neu blentyn nad yw’n ymateb ac nad yw'n anadlu’n arferol
- Helpu babi neu blentyn sy'n dioddef trawiad
- Helpu babi neu blentyn sy'n tagu
- Helpu babi neu blentyn sy'n gwaedu
- Helpu babi neu blentyn sy'n dioddef o sioc yn sgil colli llawer o waed (sioc hypofolemig)

*Mae'r pwyntiau uchod yn rhan o'r cymorth cyntaf pediatrig llawn sy'n cyfrannu at y cymorth cyntaf pediatrig brys ac sy'n ymarferol sy'n gofyn am hyfforddiant wyneb yn wyneb.*

**Atodiad B – Canllawiau Cymorth Cyntaf Atodol y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Hyfforddiant Cymorth Cyntaf Pediatrig** (tud.75)

**Rhaid iddo hefyd gynnwys:**

- Helpu babi neu blentyn sy'n dioddef o sioc anaffylactig
- Helpu babi neu blentyn sydd wedi cael sioc drydanol
- Helpu babi neu blentyn sydd â llosgiadau neu sgaldiadau
- Helpu babi neu blentyn yr amheuir ei fod wedi torri asgwrn
- Helpu babi neu blentyn sydd ag anafiadau i'w ben, ei wddf neu ei gefn
- Helpu babi neu blentyn yr amheuir ei fod wedi'i wenwyno
- Helpu babi neu blentyn sydd â rhywbeth estron yn ei lygad, ei glust neu ei drwyn

**Atodiad B – Canllawiau Cymorth Cyntaf Atodol y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Hyfforddiant Cymorth Cyntaf Pediatrig** (tud.75)

**Rhaid iddo hefyd gynnwys:**

- Helpu babi neu blentyn sydd ag anaf i'w lygad
- Helpu babi neu blentyn sydd wedi'i gnoi neu ei bigo
- Helpu babi neu blentyn sy'n dioddef o effeithiau gwres neu oerfel eithafol
- Helpu babi neu blentyn sy'n dioddef: argyfwng diabetig; pwl asthma; adwaith alergaidd; llid yr ymennydd; a/neu ffitiau twymyn
- Deall rôl a chyfrifoldebau'r swyddog cymorth cyntaf pediatrig (gan gynnwys yr hyn a ddylai fod mewn blwch cymorth cyntaf a'r angen i gofnodi damweiniau a digwyddiadau).

**Safon 10: Gofal iechyd** (tud.30)

**10.20 Bod gan o leiaf un person** sy'n gofalu am y plant dystysgrif gyfredol o gwrs Cymorth Cyntaf Pediatrig Llawn 12 awr, sy'n briodol ar gyfer oedran y plant y gofelir amdanynt.

**10.21** Bod nifer digonol o staff sydd wedi cael hyfforddiant cymorth cyntaf addas yn y fangre bob amser pan fydd y plant yn bresennol. Bod y nifer o staff sydd wedi cael hyfforddiant addas yn ddigonol o ystyried cynllun y fangre, ac i ba raddau y gall yr unigolion hynny ymateb yn gyflym i achosion brys, a chan ganiatáu ar gyer amgylchiadau lle bydd staff yn absennol neu yn cael eu galw o'r lleoliad yn annisgwyl.

**Gwarchodwyr plant**: **10.22** Bod yn rhaid i warchodwyr plant, ac unrhyw gynorthwy-ydd y gellid gofyn iddo fod yn gwbl gyfrifol am y plant, feddu ar dystysgrif lawn mewn Cymorth Cyntaf Pediatrig cyn dechrau gwarchod plant.

**10.23** Os na ofynnir i'r cynorthwy-ydd fod yn gwbl gyfrifol am y plant, bod ganddo dystysgrif Cymorth Cyntaf Pediatrig mewn Argyfwng. Dylid ymgymryd â'r cwrs 6 awr Cymorth Cyntaf Pediatrig mewn Argyfwng o fewn tri mis i ddechrau'r gwaith.

**Hyfforddiant Cymorth Cyntaf – Lleoliadau Gofal Dydd (Gofal Dydd)**

**10.24** Bod o leiaf un oedolyn wedi cael hyfforddiant ar gyfer pob deg plenty hynny yw bod ganddynt dystysgrif gyfredol o gwrs Cymorth Cyntaf Pediatrig

Early Years Wales 2018. Registered in Wales. Registered Office: Unit 1, Coopers Yard, Curran Road, Cardiff CF10 5NB Company limited by guarantee 3164233. Charity 1056381
Blynyddoedd Cynnar Cymru 2018. Gofrestredi yn Cymru. Swyddfa Gofrestredig: Uned 1, Iard y Cowper, Ffordd Curran, Caerdydd CF10 5NB Cwmni cyfyngedig trwy warant 3164233. Elusen 1056381

Llawn 12 awr.

**10.25** Bod yr holl staff eraill (gan gynnwys gwirfoddolwyr rheolaidd neu hyfforddeion) sydd wedi'u cynnwys yn y cymarebau staffio oedolion:plant yn dilyn hyfforddiant 6 awr Cymorth Cyntaf Pediatrig mewn Argyfwng a bod ganddynt dystysgrif gyfredol.

**10.26** Bod dechreuwyr newydd yn ymgymryd â chwrs 6 awr Cymorth Cyntaf Pediatrig mewn Argyfwng o fewn tri mis i ddechrau'r gwaith, ond gellir eu cynnwys yn y cymarebau staff:plant gofynnol tra bo’r hyfforddiant yn cael ei gwblhau, ar yr amod bod gan bob aelod arall o’r staff yr hyfforddiant Cymorth Cyntaf a'r tystysgrifau cyfredol gofynnol.

**10.27** Bod nifer digonol o staff sydd wedi'u hyfforddi'n briodol mewn Cymorth Cyntaf yn mynd gyda’r plant ar unrhyw dripiau.

## Newidiadau Diogelu Allweddol (a gymerwyd o'r SGC)

*Roedd trafodaeth arall yn canolbwyntio ar y gofynion ar gyfer hyfforddiant diogelu ac a oedd cymwysterau blaenorol yn ddilys. Unwaith eto, roedd costau a mecanweithiau i gefnogi lleoliadau wrth gael mynediad at hyfforddiant yn feysydd sy'n peri pryder.*

## Diogelu

Diogelu (Safon 20: Diogelu) – rydym wedi egluro yn safon 20 y gofynion ynghylch diogelu, ac wedi nodi yn yr atodiad perthnasol yr hyfforddiant priodol ar gyfer gwahanol rolau o fewn y sector. Darperir cyfnod rhybudd o 18 mis tan ddiwedd Tachwedd 2024 er mwyn i ddarparwyr allu paratoi i fodloni’r gofynion newydd o ran hyfforddiant.

- Mae amser arweiniol o 18 mis tan ddiwedd mis Tachwedd 2024 wedi'i ddarparu i alluogi staff i fodloni'r gofynion cymhwyster newydd.

Early Years Wales 2018. Registered in Wales.
Registered Office: Unit 1, Coopers Yard, Curran Road, Cardiff CF10 5NB
Company limited by guarantee 3164233. Charity 1056381
Blynyddoedd Cynnar Cymru 2018. Gofrestredi yn Cymru.
Swyddfa Gofrestredig: Uned 1, Iard y Cowper, Ffordd Curran, Caerdydd CF10 5NB
Cwmni cyfyngedig trwy warant 3164233. Elusen 1056381

- 20.7 Bod pob un o’r staff wedi cael hyfforddiant addas ar gyfer eu rôl.

**Grŵp A (Lefel 1) – Ymwybyddiaeth o Ddiogelu**

Dylai'r hyfforddiant gorfodol hwn fod yn rhan o broses sefydlu pob aelod o staff a gyflogir.

- **Rolau gofynnol:** Person nad yw'n gweithio'n uniongyrchol gyda phlant.
- **Math o gwrs:** Ar-lein
- **Hyd:** at 2-3 awr
- **Argymhellir:** adnewyddu bob 3 blynedd.

Gellir dod o hyd i enghreifftiau o rolau ar tud. 78.

https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2023-05/safonau-gofynnol-cenedlaethol-ar-gyfer-gofal-plant-wedi-i-reoleiddio_0.pdf

**Grŵp B (Lefel 2) – Cwrs Diogelu Canolradd**

- **Rolau gofynnol**: Gweithwyr sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda phlant.
- **Math o gwrs**: wyneb yn wyneb
- **Hyd**: 4-6 awr /1 diwrnodd/2x noson.
- **Argymhellir:** Adnewyddu yn unol â’r Safonau Hyfforddiant, Dysgu a Datblygu Cenedlaethol ym maes Diogelu.

Gellir dod o hyd i enghreifftiau o rolau ar tud. 79.

https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2023-05/safonau-gofynnol-cenedlaethol-ar-gyfer-gofal-plant-wedi-i-reoleiddio_0.pdf

**Grŵp C (Lefel 3) – Cwrs Diogelu Uwch.**

- **Y rolau gofynnol**: Y rhai sydd mewn cysylltiad â phlant ac **sy'n gyfrifol yn y pen draw am gwestiwn diogelu o fewn y ddarpariaeth..**
- **Math o gwrs**: wyneb yn wyneb
- **Hyd**: 2 ddiwrnod
- **Argymhellir:** Adnewyddu yn unol â'r Safonau Hyfforddiant, Dysgu a Datblygu Cenedlaethol ym maes Diogelu.

Gellir dod o hyd i enghreifftiau o rolau ar tud. 80.

https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2023-05/safonau-gofynnol-cenedlaethol-ar-gyfer-gofal-plant-wedi-i-reoleiddio_0.pdf

**Sylwch: Gofynion hyfforddi newydd ar gyfer Cymorth Cyntaf a Diogelu**

Mae amser arweiniol o 18 mis i ddiweddaru unrhyw gymwysterau sydd eu hangen. Felly, y dyddiad cau ar gyfer hyfforddiant ar hyn o bryd yw diwedd mis Tachwedd 2024. Bydd awdurdodau lleol yn derbyn cyllid ychwanegol i gefnogi'r galw am hyfforddiant gan Lywodraeth Cymru. Gan y bydd hyn yn amrywio o ALl i ALl, fe'ch cynghorir i wirio gyda'ch cysylltiadau ALl i gael gwybod pa hyfforddiant sydd ar gael eich ardal. Ar gyfer aelodau Blynyddoedd Cynnar Cymru, bydd ein Rheolwr Dysgu a Datblygu Pobl, Julie Powell, yn ymateb i'ch ymholiadau hyfforddi. juliep@earlyears.wales

**Newidiadau Allweddol Gwarchodwyr plant sy'n gweithio gyda chynorthwywyr (taken from the SGC)**

**Gwarchodwyr plant sy'n gweithio gyda chynorthwywyr (Safon 13: Person addas (GP)) –** rydym wedi darparu canllawiau yn nodi cyfrifoldebau a rôl gwarchodwyr plant cofrestredig sy'n gweithio gyda chynorthwy-ydd gwarchod plant a'r hyfforddiant perthnasol y mae'n rhaid i gynorthwy-ydd ymgymryd ag ef. Mae hyn yn cynnwys y gofyniad i gynorthwywyr fod wedi cwblhau'n llwyddiannus gwrs priodol a gydnabyddir yn Fframwaith Cymwysterau Gofal Cymdeithasol Cymru. Darperir cyfnod rhybudd o 18 mis tan ddiwedd Tachwedd 2023 ar gyfer

cynorthwywyr newydd a phresennol er mwyn rhoi amser iddynt gyflawni'r gofyniad newydd hwn.

**Gwarchodwyr plant sy'n gweithio gyda chynorthwywyr** (tud.37)

**13.4(GP)** Rhaid i unrhyw gynorthwy-ydd a gyflogir gan warchodwr plant fod wedi cwblhau'n llwyddiannus gwrs priodol a gydnabyddir yn Fframwaith Cymwysterau Gofal Cymdeithasol Cymru. Mae gofyn i gynorthwywyr fod wedi ennill y cymhwyster gofynnol erbyn **diwedd Tachwedd 2023.**

**Fframwaith Cymwysterau Gofal Cymdeithasol Cymru:**

https://gofalcymdeithasol.cymru/cymwysterau-ac-ariannu/fframwaith-cymwysterau/rol-swyddi/gofal-plant-yn-y-cartref/cynorthwyydd-gwarchod-plant

**Sylwch:**

Cynorthwywyr Gwarchodwyr Plant – Amser arweiniol o 6 mis ar gyfer y diweddariad i gymwysterau – diwedd Tachwedd 2023.


## Newidiadau allweddol Staffio (taken from the SGC)

**Aelod staff ychwanegol (Safon 15: Cymarebau staffio)** - rydym wedi cael gwared â'r safon benodol sy'n ymwneud â'r gofyniad am staff ychwanegol mewn lleoliadau sydd wedi'u cofrestru ar gyfer mwy nag 20 o blant. Rydym wedi cryfhau safonau staffio eraill i atgyfnerthu'r trefniadau rheoli ac i'w gwneud yn glir y bydd angen adnoddau staff a rheoli ychwanegol i ymgymryd â rolau rheoli os bydd hyn yn effeithio ar y cymarebau gofynnol o ran plant ac oedolion.

**Safon 13: (GD): Person addas** (tud.40)


13.8(GD) Mewn Gofal Sesiynol

- Bod gan o leiaf 40% gymhwyster lefel 2 o leiaf
- A byddai angen i o leiaf hanner y rhain feddu ar isafswm lefel 3.
- Rhaid i o leiaf 10% o gyfanswm aelodau'r staff fod yn 'gweithio tuag at' gymhwyster lefel 2 neu 3 a'u cyfrif yn y cymarebau cymwysterau staff.




**13.10(GD) Mewn gofal dydd llawn.**

- Bod gan o leiaf 60% gymhwyster lefel 2 o leiaf
- A byddai angen i o leiaf hanner y rhain feddu ar lefel 3 leiaf.
- Rhaid i o leiaf 20% o gyfanswm aelodau'r staff fod yn 'gweithio tuag at' gymhwyster lefel 2 neu 3 a'u cyfrif yn y cymarebau cymwysterau staff




**Holi ac Ateb: (dangosol yn seiliedig ar gwestiwn o 16 aelod o staff sy'n gweithio mewn lleoliad gofal dydd llawn yn unig)**

Early Years Wales 2018. Registered in Wales. Registered Office: Unit 1, Coopers Yard, Curran Road, Cardiff CF10 5NB Company limited by guarantee 3164233. Charity 1056381
Blynyddoedd Cynnar Cymru 2018. Gofrestredi yn Cymru. Swyddfa Gofrestredig: Uned 1, Iard y Cowper, Ffordd Curran, Caerdydd CF10 5NB Cwmni cyfyngedig trwy warant 3164233. Elusen 1056381

**16 Aelod o staff sy'n gweithio mewn gofal dydd llawn:**

- Bydd angen cymhwyster ar o leiaf 60% ar Lefel 2 - 10 o leiaf.
- Byddai angen i o leiaf hanner y rhain feddu ar isafswm lefel 3 – 5 (o'r 10)
- Rhaid i o leiaf 20% o gyfanswm aelodau'r staff fod yn 'gweithio tuag at' gymhwyster lefel 2 neu 3 a'u cyfrif yn y cymarebau cymwysterau staff. – 4
- Gall 2 aelod o staff fod yn anghymwys.

O leiaf 10 o staff cymwys Level 2 (Rhaid i 5 ohonynt fod yn lefel 3)
4 Gweithio tuag at lefel 2 neu 3
2 Heb gymhwyster
<u>**16**</u> Cyfanswm nifer y staff

Safon 13: Person addas (tud.37)

**Fframwaith Cymwysterau Gofal Cymdeithasol Cymru**

**[https://gofalcymdeithasol.cymru/cymwysterau-ac-ariannu/fframwaith-cymwysterau](https://gofalcymdeithasol.cymru/cymwysterau-ac-ariannu/fframwaith-cymwysterau)**

**Safon 15: Cymarebau staffio** (tud.47)

**15.5(GD)**

Mae'r gymhareb oedolion:plant yn ymwneud â'r **amser sydd gan staff i weithio'n uniongyrchol gyda phlant**:

a. Bydd angen staff ac adnoddau rheoli ychwanegol i wneud gwaith rheoli, gan gynnwys, er enghraifft, ymgysylltu â rhieni a gweithwyr proffesiynol

ym maes gofal plant, goruchwylio staff a gofynion rheoleiddio, os yw’n effeithio ar y gymhareb ofynnol.

b. Bydd angen staff ac adnoddau ychwanegol i baratoi prydau bwyd neu fyrbrydau, gwneud gwaith domestig a chynnal a chadw’r mangreoedd a’r cyfarpar os yw'n effeithio ar y gymhareb ofynnol.

## Beth sydd angen i chi ei wneud nawr?

**• Rhaid i ddarparwyr ddisodli unrhyw gopïau electronig neu galed sydd ganddynt o rifyn 2016 o'r SGC gyda'r fersiwn Mai 2023 wedi'i ddiweddaru.**

**Fel darparwr gofal plant a chwarae cofrestredig, rhaid i chi wirio sut mae'r newidiadau yn effeithio ar eich busnes a chymryd y camau angenrheidiol i fodloni'r gofynion newydd.**

**Am fwy o wybodaeth a chefnogaeth cysylltwch â:**

**Dave Goodger**
**Prif Swyddog Gweithredol**
**Blynyddoedd Cynnar Cymru**
**davidg@earlyyears.wales**

**Staff Tîm Rhanbarthol**
**D/O**
**Blynyddoedd Cynnar Cymru**
**info@earlyyears.wales**